# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 5**

COSBAU

**PENNOD 3**

COSBAU AM ANGHYWIRDEBAU

*Cosbau o dan Bennod 3: cyffredinol*

**139 Gostwng cosb o dan Bennod 3 am ddatgelu**

(1) Caiff ACC ostwng cosb sy'n daladwy o dan y Bennod hon pan fo person yn gwneud datgeliad cymwys.

(2) Ystyr "datgeliad cymwys" yw datgelu—

(a) anghywirdeb sy'n berthnasol i rwymedigaeth person i dreth ddatganoledig,

(b) bod gwybodaeth ffug wedi ei darparu, neu wybodaeth wedi ei hatal, sy'n berthnasol i rwymedigaeth person i dreth ddatganoledig, neu

(c) methiant i ddatgelu tanasesiad mewn cysylltiad â threth ddatganoledig.

(3) Mae person yn gwneud datgeliad cymwys drwy—

(a) dweud wrth ACC amdano,

(b) rhoi cymorth rhesymol i ACC wrth feintioli—

(i) yr anghywirdeb,

(ii) yr anghywirdeb sydd i'w briodoli i ddarparu gwybodaeth ffug neu gelu gwybodaeth, neu

(iii) y tanasesiad, ac

(c) caniatáu i ACC weld cofnodion at ddiben sicrhau bod—
(i) yr anghywirdeb,
(ii) yr anghywirdeb sydd i'w briodoli i ddarparu gwybodaeth ffug neu atal gwybodaeth, neu
(iii) y tanasesiad,

yn cael ei gywiro'n llawn.

(4) Wrth ostwng cosb o dan yr adran hon, caiff ACC ystyried—
(a) pa un a oedd y datgeliad wedi ei gymell neu'n ddigymell, a
(b) ansawdd y datgeliad.

(5) Mae datgelu gwybodaeth berthnasol—
(a) yn "ddigymell" os caiff ei wneud ar adeg pan nad oes gan y person sy'n datgelu unrhyw reswm i gredu bod ACC wedi darganfod neu ar fin darganfod yr anghywirdeb, bod gwybodaeth ffug wedi ei darparu neu bod gwybodaeth wedi ei hatal, neu'r tanasesiad, a
(b) fel arall, "wedi ei gymell".

(6) Mae "ansawdd", mewn perthynas â datgelu, yn cynnwys amseriad, natur a graddau.

## 140 Gostyngiad arbennig i gosb o dan Bennod 3

(1) Caiff ACC ostwng cosb o dan y Bennod hon os yw'n credu ei bod yn iawn gwneud hynny oherwydd amgylchiadau arbennig.

(2) Yn is-adran (1), nid yw "amgylchiadau arbennig" yn cynnwys—
(a) gallu i dalu, na
(b) y ffaith fod refeniw posibl a gollir gan un person yn cael ei wrthbwyso gan ordaliad posibl gan berson arall.

(3) Yn is-adran (1), mae'r cyfeiriad at ostwng cosb yn cynnwys cyfeiriad at—
(a) dileu cosb yn llwyr,
(b) gohirio cosb, ac
(c) cytuno ar gyfaddawd mewn perthynas ag achos yn ymwneud â chosb.

(4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at gosb yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw log mewn perthynas â chosb.

## 141 Asesu cosbau o dan Bennod 3

(1) Pan ddaw person yn agored i gosb o dan y Bennod hon, rhaid i ACC—
(a) asesu'r gosb,
(b) dyroddi hysbysiad i'r person o'r gosb a aseswyd, ac
(c) datgan yn yr hysbysiad ar gyfer pa gyfnod neu drafodiad yr aseswyd y gosb.

(2) Caniateir cyfuno asesiad o gosb o dan y Bennod hon ac asesiad o dreth ddatganoledig.

(3) Rhaid gwneud asesiad o gosb o dan adran 129 neu 132 cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau—
(a) â diwedd y cyfnod apelio ar gyfer y penderfyniad sy'n cywiro'r anghywirdeb, neu

(b) os nad oes asesiad o'r dreth o dan sylw o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw, â'r diwrnod y caiff yr anghywirdeb ei gywiro.

(4) Rhaid gwneud asesiad o gosb o dan adran 133 cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau—

(a) â diwedd y cyfnod apelio ar gyfer yr asesiad treth a oedd yn cywiro'r tanddatganiad, neu

(b) os nad oes asesiad sy'n cywiro'r tanddatganiad, â'r diwrnod y caiff y tanddatganiad ei gywiro.

(5) Yn is-adrannau (3) a (4), ystyr "cyfnod apelio" yw'r diweddaraf o'r cyfnodau a ganlyn—

(a) os na wneir apêl, y cyfnod y gellid gwneud apêl, a

(b) os gwneir apêl, y cyfnod sy'n dod i ben pan gaiff ei dyfarnu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl.

(6) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4), caniateir gwneud asesiad atodol mewn cysylltiad â chosb o dan y Bennod hon os oedd asesiad cynharach yn gweithredu drwy gyfeirio at danddatganiad o'r refeniw posibl a gollir.